Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan

# Adroddiad Ymgysylltu

## Arolwg Ymadael â Meddygfa

Awst 2022



# Cynnwys Tudalen

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad a chefndir | 3 |
| Yr hyn a wnaethom | 4 |
| Yr hyn a ganfuom | 4 |
| Amgylchedd allanol | 20 |
| Argymhellion | 22 |
| Diolchiadau | 23 |
| Ynglyn â'r CICau | 24 |
| Manylion cyswllt | 26 |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 27 |
| Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | 31 |

# Cyflwyniad a chefndir

Mae Cynllun Blynyddol Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan yn dangos ein bod yn ymrwymedig i ymgysylltu â'r boblogaeth leol, ac i gael adborth gan bobl sydd wedi cael triniaeth a gofal gan y GIG yn ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

Fel Cyngor Iechyd Cymuned sydd â dyletswydd statudol i fonitro gwasanaethau iechyd a chraffu arnynt, roeddem yn awyddus i ddeall mwy am fynediad pobl i'w Meddygfa yn ardal Aneurin Bevan.

Felly, gwnaethom gwblhau Arolwg Ymadael â Meddygfa gyda chleifion mewn pum practis yn ardal Aneurin Bevan. Roedd hyn yn cynnwys aelodau CIC a oedd yn mynd i safle'r Feddygfa a siarad â chleifion wrth iddynt adael y practis drwy gwblhau arolwg gyda nhw.

Y pum practis yr ymwelwyd â nhw:

- Canolfan Iechyd Llanbradach (Meddygfa'r Pentref)
- Practis Meddygol Brynmawr - Canolfan Iechyd Nant Dowlais
- Meddygfa Brynbuga
- Canolfan Feddygol Isca

Cysylltwyd â'r pum practis bythefnos cyn ein hymweliad. Rhoesom wybod i Reolwyr y Practis am y dyddiadau a'r amserau yr oedd ein haelodau'n bwriadu dod. Cafodd pecynnau arolwg a phosteri hefyd eu hanfon at y practisau i'w gosod yn ardal y dderbynfa, er mwyn i ni gyrraedd cymaint o bobl â phosibl cyn i ni ymweld.



# Yr hyn a wnaethom

Wrth i ni barhau i ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystod y pandemig, crëwyd arolwg ledled Cymru i bobl roi gwybod i ni am eu profiadau o fynd at wasanaethau'r GIG a sut yr oeddent yn teimlo y gellid eu gwella.

Ers lansio'r arolwg ledled Cymru, cawsom 380 o ymatebion gan aelodau'r cyhoedd a roddodd wybod i ni am brofiadau cadarnhaol a negyddol mewn perthynas â mynd at eu Practis Meddyg Teulu.

Felly, gwnaethom greu arolwg Ymadael â Meddygfa ar gyfer y prosiect hwn, er mwyn i ni gael rhagor o wybodaeth am brofiadau pobl wrth fynd at eu practis Meddyg Teulu. Roedd yr arolwg hefyd ar gael ar-lein drwy ddolen a chod QR.

Gwnaeth ein haelodau fynd i'r pum practis ddwywaith dros y cyfnod o bythefnos i sicrhau ein bod yn siarad â chymaint o bobl ag y gallem ni.

# Yr hyn a ganfuom

O ganlyniad i'n hymweliadau ni, a phobl yn llenwi ein harolwg ar-lein, clywsom gan 191 o bobl. Mae trosolwg o nifer yr ymatebion fesul practis fel a ganlyn:

- Canolfan Iechyd Llanbradach (Meddygfa'r Pentref): 39
- Practis Meddygol Brynmawr: 30
- Canolfan Iechyd Nant Dowlais: 38
- Meddygfa Brynbuga: 40
- Canolfan Feddygol Isca: 9

Cawsom hefyd 35 o ymatebion ychwanegol gan unigolion, ond nid oedd modd i ni ddynodi â pha feddygfa roeddent wedi cofrestru.



**C1. Gwnaethom ofyn, *"Pa mor hawdd yw hi i drefnu apwyntiad arferol?":***

| Meddygfa | Hawdd iawn | Hawdd | Cymharol fodlon | Anodd | Anodd iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Canolfan Iechyd Llanbradach (Meddygfa'r Pentref) | 17 | 13 | 6 | 2 | 1 |
| Practis Meddygol Brynmawr | 0 | 2 | 0 | 7 | 21 |
| Canolfan Iechyd Nant Dowlais | 0 | 2 | 4 | 15 | 14 |
| Meddygfa Brynbuga | 19 | 5 | 11 | 4 | 0 |
| Canolfan Feddygol Isca | 0 | 2 | 2 | 2 | 0 |

**C2. Gwnaethom ofyn, *"Sut rydych yn gwneud apwyntiad arferol fel arfer?":***

| Meddygfa | Ffôn | Mewn person | Fy Iechyd Ar-lein | Arall |
|---|---|---|---|---|
| Canolfan Iechyd Llanbradach (Meddygfa'r Pentref) | 35 | 1 | 2 | 0 |
| Practis meddygol Brynmawr | 29 | 0 | 0 | 0 |
| Canolfan Iechyd Nant Dowlais | 29 | 9 | 0 | 0 |
| Meddygfa Brynbuga | 35 | 1 | 2 | E-consult: 1 Maent yn rhoi |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gwybod i ni: 1 |
| Canolfan Feddygol Isca | 7 | 0 | 2 | 0 |

**C3. Gwnaethom ofyn, *"A hoffech allu gwneud apwyntiad gan ddefnyddio dull gwahanol?"***

| **Meddygfa** | **Hoffwn** | **Na hoffwn** |
|---|---|---|
| Canolfan Iechyd Llanbradach (Meddygfa'r Pentref) | 14 | 24 |
| Practis Meddygol Brynmawr | 17 | 11 |
| Canolfan Iechyd Nant Dowlais | 24 | 12 |
| Meddygfa Brynbuga | 10 | 30 |
| Canolfan Feddygol Isca | 3 | 5 |

Dywedodd y rhai a ddewisodd "hoffwn" yr hoffen nhw ddefnyddio'r rhyngrwyd neu Fy Iechyd Ar-lein i allu gwneud apwyntiad.

**C4. Gwnaethom ofyn, *"A yw eich meddyg yn eich cyfyngu i drafod un mater yn ystod eich apwyntiad arferol?"***

| **Meddygfa** | **Ydy** | **Nac ydy** | **Dydw i ddim yn siŵr** |
|---|---|---|---|
| Canolfan Iechyd Llanbradach (Meddygfa'r Pentref) | 7 | 17 | 10 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Practis Meddygol Brynmawr | 20 | 1 | 8 |
| Canolfan Iechyd Nant Dowlais | 10 | 8 | 16 |
| Meddygfa Brynbuga | 8 | 24 | 7 |
| Canolfan Feddygol Isca | 1 | 5 | 3 |

**C5. Gwnaethom ofyn, *"Pa mor hir y mae'n rhaid i chi aros i weld meddyg am apwyntiad arferol?"***

| **Meddygfa** | **Llai na 48 awr** | **Llai nag wythnos** | **1-2 wythnos** | **2-3 wythnos** | **Mwy na 3 wythnos** |
|---|---|---|---|---|---|
| Canolfan Iechyd Llanbradach (Meddygfa'r Pentref) | 4 | 5 | 28 | 0 | 0 |
| Practis Meddygol Brynmawr | 1 | 1 | 10 | 9 | 6 |
| Canolfan Iechyd Nant Dowlais | 5 | 10 | 7 | 4 | 7 |
| Meddygfa Brynbuga | 21 | 8 | 3 | 1 | 3 |
| Canolfan Feddygol Isca | 1 | 0 | 4 | 3 | 1 |

**C6. Gwnaethom ofyn, *"Pan fyddwch yn trefnu apwyntiad arferol, a fyddai'n well gennych gael eich gweld yn gynt, neu i allu dewis y meddyg er mwyn sicrhau cysondeb?"***


Wrth edrych ar y data hyn, roedd hi'n amlwg y byddai'r rhan fwyaf o gleifion naill ai'n hoffi'r opsiwn i ddewis pa feddyg yr oeddent yn ei


weld er cysondeb, neu byddai'n dibynnu ar y rheswm yr oedd angen yr apwyntiad hwn arnynt cyn penderfynu a oeddent am weld meddyg penodol.





**C7 Gwnaethom ofyn, *"Pa mor hawdd yw cael mynediad at apwyntiad brys*?"***


*Yn golygu apwyntiadau brys*




Practis Meddygol Brynmawr
2
2
5
6
10
5
Hawdd iawn
Hawdd
Cymharol hawdd
Anodd
Anodd iawn
Ddim yn gwybod


Canolfan Iechyd Nant Dowlais
1
3
9
8
7
9
Hawdd iawn
Hawdd
Cymharol hawdd
Anodd
Anodd iawn
Ddim yn gwybod


Meddygfa Brynbuga
15
14
5
3
0
2
Hawdd iawn
Hawdd
Cymharol hawdd
Anodd
Anodd iawn
Ddim yn gwybod


Canolfan Feddygol Isca
0
2
1
3
1
1
Hawdd iawn
Hawdd
Cymharol hawdd
Anodd
Anodd iawn
Ddim yn gwybod

### C8. Gwnaethom ofyn, *"A ydych yn defnyddio Fy Iechyd Ar-lein?":*

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion yn y pum practis wrthym eu bod wedi clywed am Fy Iechyd Ar-lein, ond dydyn nhw ddim yn ei ddefnyddio.

Y rhai a oedd yn defnyddio Fy Iechyd Ar-lein i wneud apwyntiadau yn eu Meddygfa:

| | |
|---|---|
| Canolfan Iechyd Llanbradach (Meddygfa'r Pentref) | 5 |
| Practis Meddygol Brynmawr | 2 |
| Canolfan Iechyd Nant Dowlais | 0 |
| Meddygfa Brynbuga | 3 |
| Canolfan Feddygol Isca | 1 |

### C9. Gwnaethom ofyn, "Pa mor hawdd yw cael ymweliad cartref os byddai angen un arnoch?":

| Meddygfa | Hawdd iawn | Hawdd | Cymharol fodlon | Anodd | Anodd iawn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canolfan Iechyd Llanbradach (Meddygfa'r Pentref) | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 32 |
| Practis Meddygol Brynmawr | 1 | 1 | 1 | 0 | 14 | 13 |
| Canolfan Iechyd Nant Dowlais | 1 | 0 | 0 | 7 | 5 | 23 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Meddygfa Brynbuga | 2 | 3 | 0 | 0 | 6 | 29 |
| Canolfan Feddygol Isca | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 4 |

**C10. Gwnaethom ofyn, *"Pa mor hawdd yw archebu presgripsiwn rheolaidd?":***

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion ym Meddygfa Brynbuga a Chanolfan Feddygol Isca eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn archebu presgripsiynau rheolaidd.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw yng Nghanolfan Iechyd Nant Dowlais,
Canolfan Iechyd Llanbradach (Meddygfa'r Pentref) a Chanolfan Iechyd Brynmawr eu bod yn ei chael hi'n "hawdd" neu'n "gymharol hawdd" archebu presgripsiynau rheolaidd.

**C11. Gwnaethom ofyn, *"Beth yw eich dewis iaith?":***

Dywedodd bron pob claf yn y pum practis a wnaeth ateb y cwestiwn hwn wrthym mai Saesneg oedd ei ddewis iaith. Dywedodd dau glaf o Ganolfan Iechyd Llanbradach (Meddygfa'r Pentref) mai Cymraeg oedd ei ddewis iaith.

**C12. Yna, gwnaethom ofyn a oedd pobl yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith:**

Dywedodd yr holl gleifion ym Mhractis Meddygol Brynmawr, Meddygfa Brynbuga, Canolfan Feddygol Isca wrthym eu bod yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith. Fodd bynnag, dywedodd un claf yng Nghanolfan Iechyd Llanbradach (Meddygfa'r Pentref) a Chanolfan Iechyd Nant Dowlais wrthym nad oedd yn gallu cyfathrebu yn ei ddewis iaith.



**C13. Gwnaethom ofyn, *"Ydy'r cyfathrebiadau rydych yn eu cael gan eich meddygfa yn ddigonol? (H.y., y llythyrau a anfonir/y galwadau ffôn a wneir i chi)"***

| Meddygfa | Ydyn | Nac ydyn |
|---|---|---|
| Canolfan Iechyd Llanbradach (Meddygfa'r Pentref) | 33 | 2 |
| Practis Meddygol Brynmawr | 16 | 13 |
| Canolfan Iechyd Nant Dowlais | 29 | 7 |
| Meddygfa Brynbuga | 37 | 3 |
| Canolfan Feddygol Isca | 7 | 1 |

Sylwadau'r rhai a atebodd "nac ydyn" i'r cwestiwn uchod:

*"Roedd nodiadau atgoffa am apwyntiadau'n cael eu hanfon yn rhy gynnar – byddai 1 diwrnod yn well" – Canolfan Iechyd Llanbradach (Meddygfa'r Pentref)*

*"Byddai galwadau ffôn yn well na llythyrau" – Practis Meddygol Brynmawr*

*"Dim cysondeb, diffyg gofal" – Practis Meddygol Brynmawr*

*"Cyfathrebu aneglur/gwael" – Practis Meddygol Brynmawr*

*"Ni chaiff canlyniadau profion eu cyfleu, oni ofynnir amdanynt. Gallai canlyniadau ymylol gael eu trin yn gynt" – Canolfan Iechyd Nant Dowlais*

*"Gorfod mynd ar eu trywydd bob tro" – Canolfan Iechyd Nant Dowlais*

*"Ymateb i wybodaeth y gofynnwyd amdani yn gynt" – Meddygfa Brynbuga*

*"Nid oes unrhyw gyfathrebu os oes newidiadau'n cael eu gwneud. Maen nhw'n dibynnu ar hysbysiadau yn y feddygfa." – Canolfan Feddygol Isca*

## C14. Gwnaethom ofyn, "Ydych chi'n teimlo bod digon o breifatrwydd yn ardal y dderbynfa?"

Adroddwyd y gallai ardaloedd derbynfa gael eu gwella ym mhob safle mewn perthynas â phreifatrwydd ar gyfer cleifion.

## C15 Gwnaethom ofyn, *"A ydych yn cael unrhyw drafferthion i gyrraedd y feddygfa?"*

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion yn y pum practis wrthym nad oeddent yn cael unrhyw drafferthion i gyrraedd eu practis.

Dywedodd un unigolyn o Ganolfan Feddygol Isca wrthym *"Dydw i ddim yn gyrru, ac mae disgwyl i mi dderbyn apwyntiadau gydag unrhyw un o'r meddygfeydd mewn 3 phentref."*

I ddilyn y cwestiwn hwn, gwnaethom ofyn, *"A ydych yn cael unrhyw drafferthion i fynd i mewn i'r adeilad?"*

Yn yr un modd, dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion yn y pum practis wrthym nad oeddent yn cael unrhyw drafferthion i fynd i mewn i'r adeilad.

Dywedodd un claf o Feddygfa Brynbuga wrthym y byddai gwell mynediad i bobl anabl o fantais i'r adeilad gan eu bod yn cael trafferthion parcio y tu allan.

Dywedodd un claf o Ganolfan Iechyd Nant Dowlais wrthym ei fod yn cael trafferthion yn mynd i mewn i'r adeilad, a hynny fel rheol oherwydd pobl yn ciwio. Dywedodd wrthym *"Maen nhw'n cyfyngu*

*mynediad i 1 person ar y tro o hyd*", gan mai un aelod o staff sydd wrth ddesg y dderbynfa yn y practis hwn, dywedon nhw wrthym petai gan un unigolyn ymholiad hir, gall gymryd amser hir i "*hyd yn oed rhoi un troed yn yr adeilad*".

Gwnaethom ofyn i bobl roi sgôr i'r canlynol yn eu practis:

**Canolfan Iechyd Llanbradach (Meddygfa'r Pentref):**

| | **Bodlon iawn** | **Bodlon** | **Cymharol fodlon** | **Anfodlon** | **Anfodlon iawn** |
|---|---|---|---|---|---|
| Amseroedd agor y feddygfa | 4 | 2 | 0 | 2 | 1 |
| Yr ardal aros | 4 | 1 | 3 | 0 | 0 |
| Staff y dderbynfa | 4 | 4 | 0 | 1 | 0 |

**Practis Meddygol Brynmawr:**

| | **Bodlon iawn** | **Bodlon** | **Cymharol fodlon** | **Anfodlon** | **Anfodlon iawn** |
|---|---|---|---|---|---|
| Amseroedd agor y feddygfa | 11 | 7 | 10 | 2 | 0 |
| Yr ardal aros | 9 | 8 | 12 | 0 | 0 |
| Staff y dderbynfa | 5 | 5 | 12 | 4 | 3 |

**Canolfan Iechyd Nant Dowlais:**

| | Bodlon iawn | Bodlon | Cymharol fodlon | Anfodlon | Anfodlon iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Amseroedd agor y feddygfa | 7 | 16 | 11 | 3 | 0 |
| Yr ardal aros | 5 | 15 | 15 | 2 | 0 |
| Staff y dderbynfa | 10 | 13 | 6 | 6 | 0 |

**Meddygfa Brynbuga:**

| | Bodlon iawn | Bodlon | Cymharol fodlon | Anfodlon | Anfodlon iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Amseroedd agor y feddygfa | 20 | 8 | 9 | 1 | 0 |
| Yr ardal aros | 18 | 8 | 12 | 1 | 0 |
| Staff y dderbynfa | 19 | 8 | 11 | 0 | 1 |

**Canolfan Feddygol Isca:**

| | Bodlon iawn | Bodlon | Cymharol fodlon | Anfodlon | Anfodlon iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Amseroedd agor y feddygfa | 4 | 2 | 0 | 2 | 1 |
| Yr ardal aros | 4 | 1 | 3 | 0 | 0 |
| Staff y dderbynfa | 4 | 4 | 0 | 1 | 0 |

Sylwadau:

**Canolfan Iechyd Llanbradach (Meddygfa'r Pentref):**

*"Meddygfa ardderchog. Mae pob meddyg teulu'n garedig, yn gyfeillgar ac yn poeni am ei gleifion. Dyma'r feddygfa orau rydw i wedi cofrestru â hi."*

*"Hoffwn ddefnyddio Fy Iechyd Ar-lein"*

*"Rwy'n gwerthfawrogi'r gofal a'r driniaeth rydw i wedi'u derbyn gan yr holl feddygon a staff cymorth."*

Ni roddwyd unrhyw sylwadau negyddol gan y cleifion a lenwodd ein harolwg.

**Practis Meddygol Brynmawr:**

*"Rydw i wedi'i chael hi'n anodd iawn ceisio cael apwyntiad"*

*“Mae'n ben tost i drefnu apwyntiad arferol yn fy meddygfa. Rydw i wedi bod ar y lein am awr ac yna'n cael gwybod bod pob apwyntiad wedi mynd. Methu aildrefnu apwyntiadau, dim ond canslo a threfnu o'r newydd sy'n cymryd 2 wythnos ychwanegol”*

Cafodd thema gyffredin ei nodi wrth ystyried adborth ar gyfer y practis hwn: byddai'n well gan gleifion cael mwy o apwyntiadau wyneb yn wyneb gyda meddyg teulu. At hynny, maen nhw am fynd i apwyntiadau meddyg teulu'n gynt.

Rhoddodd aelod o'r cyhoedd wybod i ni ei fod wedi ffonio Practis Meddygol Brynmawr yn ddiweddar i wneud apwyntiad i weld meddyg. Ffoniodd y claf y practis yn y bore'n wreiddiol a chael gwybod mai “rhif 31” yn y ciw ydoedd. Felly, penderfynodd ffonio'n ôl yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw.

Pan ffoniodd yn ôl, bu rhaid iddo aros mewn ciw ar y ffôn am amser hir. Cafodd wybod mai ei alwad ef fyddai'n cael ei ateb nesaf.

Ond, bu rhaid iddo aros am 30 munud arall. Pan gafodd yr alwad ei hateb, cafodd y claf llawer o drafferth yn ceisio gwneud apwyntiad i weld y meddyg teulu gyda'r derbynnydd. Dywedodd y claf hwn wrthym ei fod yn siomedig â'i brofiad a'r heriau roedd yn eu hwynebu i wneud apwyntiad i weld meddyg.

Gwnaed Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan yn ymwybodol hefyd fod cyfarfod cyhoeddus wedi'i gynnal gan gynghorwyr lleol a thrigolion lleol yr ardal hon, er mwyn trafod anghenion mynediad i Bractis Meddygol Brynmawr.

**Canolfan Iechyd Nant Dowlais:**

*“Mae'n ymddangos bod problem gyda phresgripsiynau ar adegau”*

*“Ar ôl i chi fynd trwy'r drws, mae'n eithaf hawdd cael apwyntiad. Gwnes i geisio mynd trwodd dros 200 o weithiau heddiw oherwydd fy mod i wedi dyfalbarhau. Ddylai ddim bod mor anodd â hyn i weld meddyg”*

*"Yn hapus â'r gwasanaeth a ddarperir ar y cyfan"*

Rhoddwyd sawl sylw i ni am yr aros yr oedd pobl yn ei wneud wrth geisio mynd trwodd i'r practis dros y ffôn i drefnu apwyntiad.

**Meddygfa Brynbuga:**

*"Rydw i'n fyddar ac felly'n cael trafferthion deall sgyrsiau dros y ffôn"*

*"Mae'r holl staff, meddygon a nyrsys yn darparu gofal gwych yn yr ardal hon, a hynny mewn cyfnod heriol iawn i'r GIG"*

*"Yr argraff rwy'n ei chael ers i'r feddygfa arall gau a'u bod wedi derbyn 2,000 o gleifion, yw nad oes digon o staff a meddygon i ymdopi ac felly mae safon y gwasanaeth wedi cwympo"*

Derbyniwyd sawl sylw mewn perthynas â chleifion yn gorfod rhoi llawer iawn o wybodaeth i staff y dderbynfa er mwyn gwneud apwyntiad.

**Canolfan Feddygol Isca:**

*"Mae'r staff i gyd yn ardderchog"*

*"Angen amserau agor hirach ac ateb ffonau"*

*"Mae staff y dderbynfa'n anghwrtais ac yn ceisio gorfodi e-consult sy'n anaddas i'r diben – mae'n gofyn cwestiynau amherthnasol ac nid yw'r meddygon teulu'n sicrhau bod y gwiriadau perthnasol yn cael eu gwneud"*

# Amgylchedd Allanol

**Canolfan Iechyd Llanbradach (Meddygfa'r Pentref):**

Nodwyd bod adeilad y feddygfa hon yn un newydd, a chafodd ei ddisgrifio fel “ardderchog”. Roedd digon o le ar gael i barcio a mynediad addas i ddiwallu anghenion pobl. Fodd bynnag, rhoddwyd gwybod bod claf wedi gorfod gorffwys ar resel feiciau i'w gynnal wrth ddod i mewn i'r feddygfa gan nad oedd canllawiau ar gael. Nid oedd gwybodaeth am amserau agor a chysylltu y tu allan i oriau'r feddygfa wedi'u cyhoeddi y tu allan.

**Practis Meddygol Brynmawr:**

Mae'n gadarnhaol rhoi gwybod bod gan y feddygfa hon faes parcio mawr a bod modd ei chyrraedd yn hawdd i ddiwallu anghenion pob claf. Arsylwyd bod yr ardal awyr agored yn lân ac yn daclus. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r arsylwad uchod, nid oedd yr oriau agor ar gyfer y practis hwn i'w gweld y tu allan i'r practis. Mae'n ymddangos i'r wybodaeth hon fod ar hysbysfwrdd wrth y fynedfa i'r ardal aros. Roedd gwybodaeth cysylltu y tu allan i oriau i'w gweld ar yr hysbysfwrdd hefyd.

**Canolfan Iechyd Nant Dowlais:**

Rhoddwyd gwybod nad oedd arwyddion allanol mewn perthynas ag oriau agor y practis hwn, na rhagor o wybodaeth mewn perthynas â manylion cysylltu y tu allan i oriau ac ati.

Arsylwyd bod digon o le parcio yn y feddygfa hon a bod lle parcio cyhoeddus ychwanegol ar gael yn agos i'r practis.

Arsylwodd ein tîm nad oedd unrhyw finiau gwastraff y tu allan i'r practis ac nid oedd ardaloedd y gerddi wedi cael sylw, lle roedd sbwriel i'w gweld.

**Meddygfa Brynbuga:**

Nodwyd bod angen ail-baentio’r llefydd parcio i bobl anabl yn y practis gan eu bod wedi pylu. Roedd yr oriau agor ar gyfer y practis i'w gweld dim ond os oeddech yn gallu edrych i mewn trwy'r drysau gwydr. Nid oedd gwybodaeth cysylltu y tu allan i oriau ar gael y tu allan i'r practis.

**Canolfan Feddygol Isca:**

Nodwyd nad oes lle parcio dynodedig i gleifion yn y practis hwn. Mae saith lle parcio ar gael ar gyfer staff gyda dau le parcio i bobl anabl ar gael.

Mae'r practis hwn ar ffordd brysur ac felly nid oes fawr o le i barcio. Er mwyn cerdded o'r llwybr troed cyhoeddus i brif fynedfa'r ganolfan feddygol, mae angen i bobl gerdded i fyny ychydig o lethr, y rhoddwyd gwybod ei fod yn anwastad.

Yn gadarnhaol, roedd oriau agor y practis yn cael eu harddangos ar brif ddrws y fynedfa. Ond, nid oedd gwybodaeth cysylltu y tu allan i oriau yn cael eu harddangos yn unman.

Rhoddwyd gwybod bod y practis yn darparu mynediad addas i ddiwallu anghenion pobl. Fodd bynnag, yn ystod ein hymweliadau, nodwyd bod “carreg fawr frown” yn cael ei defnyddio i gadw drws mynedfa'r feddygfa ar agor, a allai greu risg o faglu.

Nododd yr aelodau bod yr arwyddion ar gyfer y feddygfa ar y ffyrdd gerllaw yn anodd iawn eu gweld.

# Argymhellion

1. Byddai'n dda gan y CIC pe gallai rheolwyr y practis rannu'r adborth cadarnhaol a gafwyd gyda'u timau.

2. Yn dilyn yr adborth a gafwyd, gofynnwyd i'r pum practis ystyried darparu rhagor o wybodaeth i gleifion am sut i drefnu apwyntiadau ar Fy Iechyd Ar-lein.

3. Gofynnir i Bractis Meddygol Brynmawr asesu a oes modd gwella'r mynediad i ymweliadau â chartrefi.

4. Gofynnir i Ganolfan Iechyd Nant Dowlais a Chanolfan Iechyd Llanbradach (Meddygfa'r Pentref) sicrhau bod modd i bob claf gyfathrebu yn ei ddewis iaith.

5. Gofynnir i Bractis Meddygol Brynmawr ystyried adolygu'r ffordd y maent yn anfon gwybodaeth at gleifion er mwyn sicrhau cysondeb.

6. Gofynnir i bob practis asesu a oes modd gwneud desg/ardal y dderbynfa yn fwy preifat i gleifion.

7. Gofynnir i Ganolfan Feddygol Isca edrych ar y tir tu allan i'r practis i sicrhau bod mynediad diogel i gleifion.

8. Gofynnir i bob practis asesu'r system gwneud apwyntiadau, yn enwedig arosiadau hir pobl wrth gysylltu â'r practis i drefnu apwyntiad.

9. Gofynnir i bob practis sicrhau bod amseroedd agor y practis a'r wybodaeth cysylltu y Tu Allan i Oriau i'w gweld yn amlwg o'r tu allan i'r adeilad.

10. Gofynnir i Ganolfan Iechyd Nant Dowlais ystyried defnyddio biniau gwastraff y tu allan i'r practis i sicrhau bod gan aelodau'r cyhoedd le i gael gwared ar eu sbwriel.

11. Gofynnir i Ganolfan Iechyd Llanbradach (Meddygfa'r Pentref) sicrhau bod canllawiau priodol wedi'u gosod i helpu cleifion pan fyddant yn dod i'r practis.

# Diolchiadau


Hoffai'r CIC ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i rannu eu profiadau a'u barn am fynediad i'w meddygfeydd. Rydym hefyd yn diolch i'n haelodau a gynhaliodd arolygon gyda chleifion.

Rydym yn gobeithio y bydd yr adborth y mae pobl wedi rhoi o'u hamser i'w rannu yn dylanwadu ar wasanaethau gofal iechyd i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei wneud yn dda a'u galluogi i gymryd camau cyn gynted â phosibl i wella pethau lle bo angen.

# Ynglŷn â Chynghorau Iechyd Cymuned (CICau)

CICau yw corff gwarchod annibynnol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.  Mae CICau yn annog pobl i leisio eu barn am y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG, ac yn eu cefnogi i wneud hynny.

Mae CICau yn gweithio gyda'r GIG, cyrff arolygu a chyrff rheoleiddio. Mae CICau yn darparu dolen gyswllt bwysig rhwng y rhai sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau'r GIG, y rhai sy'n eu harchwilio a'u rheoleiddio, a'r rhai sy'n eu defnyddio.




Mae CICau yn cael adborth gan y cyhoedd mewn sawl ffordd.  Cyn pandemig y coronafeirws, roedd CICau yn ymweld â gwasanaethau'r GIG yn rheolaidd er mwyn clywed gan bobl wrth iddynt gael gofal a thriniaeth.  Roedd y CICau hefyd yn clywed

gan bobl mewn digwyddiadau cymunedol lleol a thrwy gynrychiolwyr a grwpiau cymunedol.

Ers pandemig y coronafeirws, mae'r CICau wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl mewn ffyrdd gwahanol.

Mae hyn yn cynnwys arolygon, apiau, fideogynadleddau a'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn clywed gan bobl yn uniongyrchol am eu barn am wasanaethau'r GIG a'u profiadau o'u defnyddio, yn ogystal â thrwy grwpiau cymunedol.

Mae saith CIC yng Nghymru.  Mae pob un ohonynt yn cynrychioli llais “y cleifion a'r cyhoedd” mewn rhan wahanol o Gymru.

# Manylion cyswllt

Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
Tŷ Rhaglan
William Brown Close
Parc Busnes Llantarnam
Cwmbrân
NP44 3AB

01633 838516

**Enquiries.AneurinBevanCHC@waleschc.org.uk**

**www.aneurinbevancic.gig.cymru**

@bevanchc

CIC Aneurin Bevan CHC

## Atodiad 1 – Canlyniadau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn yr Arolwg

Nifer y bobl a gwblhaodd y Cwestiynau am Gydraddoldeb ac Amrywiaeth: 163

| **Dewis Iaith** | | |
|---|---|---|
| **Saesneg** | **Arall** | **Heb ateb** |
| **149** | **0** | **14** |

| **Rhywedd** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Menyw / Merch** | **Dyn/ Bachgen** | **Anneuaidd** | **Byddai'n well gen i beidio â dweud** | **Arall** | **Heb ateb** |
| **105** | **55** | **0** | **1** | **0** | **2** |

| **A ydych yn ystyried eich bod yn berson traws?** | | | |
|---|---|---|---|
| **Ydw** | **Nac ydw** | **Byddai'n well gen i beidio â dweud** | **Heb ateb** |
| **1** | **154** | **1** | **7** |

| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Anrhywiol** | **Deu-rywiol** | **Hoyw** | **Lesbiaidd** | **Heterorywiol/ Syth** | **Panrywiol** | **Byddai'n well gen i beidio â dweud** | **Arall** | **Heb ateb** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | 3 | 0 | 1 | 144 | 2 | 5 | 0 | 4 |

| Mis a Blwyddyn geni | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 1947-60 | Chwe 1940-03 | Maw 1940-95 | Ebr 1932-04 | Mai 1942-00 | Meh 1934-90 | Gorff 1939-85 | Awst 1935-75 |
| 8 | 9 | 17 | 11 | 7 | 12 | 14 | 9 |
| Medi 1947-03 | Hyd 1930-86 | Tach 1949-95 | Rhag 1939-02 | 1940-64 | | | |
| 8 | 7 | 3 | 12 | 7 | | | |
| Heb Ateb | | | | | | | |
| 39 | | | | | | | |

| Ethnigrwydd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig: | | | | |
| Bangladeshaidd | Tsieineaidd | Indiaidd | Pacistanaidd | Arall |
| 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| **Du neu Ddu Prydeinig:** | | |
|---|---|---|
| **Affricanaidd** | **Caribïaidd** | **Arall** |
| **0** | **0** | **0** |

| **Gwyn:** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cymreig/ Seisnig / Albanaidd /Gwyddelig o Ogledd Iwerddon / Prydeinig** | **Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig** | **Gwyddeli g** | **Arall** |
| **154** | **0** | **2** | **0** |

| **Grŵp ethnig arall:** | | |
|---|---|---|
| **Arabaidd** | **Byddai'n well gen i beidio â dweud** | **Arall** |

| **Crefydd neu gred** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Bwdhaeth | Cristnogaeth | Hindŵaeth | Islam | Iddewiaet h |
| 0 | 86 | 1 | 0 | 0 |
| Siciaeth | Anffyddiaeth | Dim Crefydd | Byddai'n well gennyf beidio â dweud | Crefydd neu gred arall |
| 0 | 4 | 46 | 9 | 4 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Heb ateb | | | | |
| 13 | | | | |

| A ydych yn ystyried bod gennych anabledd? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Byddai'n well gennyf beidio â dweud | Heb ateb |
| 43 | 101 | 8 | 11 |

| A ydych yn gofalu am aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog, neu'n rhoi unrhyw gymorth iddo, o ganlyniad i anabledd corfforol hirdymor, anhawster dysgu, salwch meddwl neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Byddai'n well gennyf beidio â dweud | Heb ateb |
| 39 | 116 | 0 | 0 |

| A ydych yn feichiog ar hyn o bryd neu a ydych wedi bod yn feichiog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? | | |
|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Heb ateb |
| 1 | 152 | 9 |

# Atodiad 2

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cwblhewch y tabl canlynol er mwyn nodi a fydd y polisi/gweithgaredd yn cael effaith andwyol, gadarnhaol neu wahaniaethol ar y grwpiau canlynol, neu drwy nodi na fydd unrhyw effaith o gwbl

| **Effaith** | **Dim** | **Negyddol** | **Cadarnhaol** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion Gwarchodedig** | | | | |
| Oedran | x | | | |
| Anabledd | x | | | |
| Rhyw | X | | | |
| Hil | X | | | |
| Crefydd/Credoau | X | | | |
| Cyfeiriadedd rhywiol | X | | | |
| Ailbennu rhywedd | X | | | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | X | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd a mamolaeth | x | | | |
| **Nodweddion eraill i'w hystyried** | | | | |
| Y Gymraeg | | | x | Adroddiadau ac Arolygon wedi'u cyhoeddi ar ffurf ddwyieithog |
| Ieithoedd eraill | | x | | Gellir cyhoeddi Adroddiadau ac Arolygon yn yr iaith ofynnol ar gais |
| Hawliau dynol | x | | | |
| Lefel tlodi | x | | | |
| Unigolion â dibynyddion | x | | | |
| Poblogaeth wledig | x | | | |
| Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr | x | | | |
| Unigolion sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio technoleg ddigidol | x | | | Roedd yr arolwg ar gael mewn print ac ar-lein. |

## Asesiad risg

| |
|---|
| **A oes unrhyw risgiau'n codi wrth roi'r polisi hwn ar waith?** Amherthnasol |
| **Pa fesurau sydd ar waith i reoli neu ddileu'r risgiau hyn?** |
| Amherthnasol |
| **Y Gymraeg**<br><br>Mae'r ddogfen hon/polisi hwn wedi'i hasesu/asesu yn unol â'n gofynion o ran y Gymraeg ar gyfer safonau:<br><br>i) 37,38<br>ii) 69,70,71<br><br>Wrth benderfynu ar yr effaith, gwnaethom ofyn am gyngor/adolygu tystiolaeth/ystyried y canlynol:<br><br>Mae pob dogfen gyhoeddus gan y CIC ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br><br>Mae'r CIC yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus ac yn eu nodi fel eitemau cadarnhaol i'w cyfieithu i'r Gymraeg.<br><br>**Canlyniad**<br><br>Effaith gadarnhaol –<br><br>Safonau 37, 38 – Caiff pob dogfen gyhoeddus ei llunio a'i chyhoeddi'n ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br><br>Safonau 69-71 – Rydym yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus ac yn eu nodi fel eitemau cadarnhaol i'w cyfieithu i'r Gymraeg<br><br>Effaith Negyddol – Dim |

# Fformatau hygyrch

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa.